

1.0 Datganiad Polisi

- 1.1 Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn ymrwymo i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i genedlaethau'r dyfodol.
- 1.2 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymrwymedig i'r canlynol:
- Dod yn ddefnyddiwr di-garbon net erbyn 2030;
 - Diogelu'r amgylchedd drwy leihau effeithiau negyddol ein gweithgareddau a bod yn arweinwyr cymunedol wrth hyrwyddo gwaith rheoli amgylcheddol cyfrifol;
 - Nodi a chydymffurfio gyda'r holl rwymedigaethau cydymffurfio amgylcheddol perthnasol i'n sefydliad;
 - Atal llygredd aer, dŵr a thir o'n gweithgareddau a cheisio lleihau llygredd o ffynonellau eraill.
- 1.3 Mae'r System Rheoli Amgylcheddol a weithredir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydymffurfio â Safon ddiweddaraf y Ddraig Werdd ar gyfer Rheolaeth Amgylcheddol 2016.

2.0 Cwmpas y Polisi

- 2.1 Mae Polisi Amgylcheddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cwmpasu holl wasanaethau'r Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys Gwasanaethau Corfforaethol, Economi a Diwylliant, Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, Gwasanaeth Asesiadau Refeniw a Budd-daliadau, Gofal Cymdeithasol ac Addysg.
- 2.2 Mae'r prif agweddau amgylcheddol o'n gweithgareddau yn cysylltu â'n blaenoriaethau amgylcheddol ym meysydd allyriadau nwyon tŷ gwydr, y defnydd o adnoddau naturiol, rheoli gwastraff, rhyddhau elifion masnach a storio tanwydd a pherygl llygru cysylltiol.

3.0 Amcanion Gwella

- 3.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017-2022 wedi'i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n canolbwyntio ar 8 maes blaenoriaeth:
1. Mae pobl wedi'u haddysgu ac yn fedrus.
 2. Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.
 3. Mae gan bobl fynediad at lety fforddiadwy ac addas o safon uchel sy'n gwella safon eu bywyd.
 4. Mae pobl yn iach ac yn egnïol.
 5. Mae pobl yn byw mewn sir gydag economi ffyniannus.
 6. Mae pobl yn gwerthfawrogi ac yn edrych ar ôl yr amgylchedd.
 7. Mae pobl yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.
 8. Mae pobl yn cyfrannu at eu cymuned. Maent yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais.
- 3.2 Caiff perfformiad tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ei fonitro'n agos ac adroddir amdano yn flynyddol.
- ## **4.0 Adolygiad a Chymeradwyaeth**
- 4.1 Caiff y polisi hwn ei adolygi o leiaf un waith y flwyddyn neu'n amlach, yn unol ag anghenion gweithredol ac anghenion busnes. Fel rhan o'r adolygiad, caiff y polisi hwn ei gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Her yr Hinsawdd i gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau.



Cymeradwywyd:
Rheolwr Rhaglen, Rhaglen Her yr Hinsawdd